CYMHWYSTER I WEITHIO YN Y DG

Rhaid i ddarpar weithwyr ddarparu tystiolaeth yn eu cyfweliad eu bod yn gymwys i weithio yn y DG fel a ganlyn:

a) Un o'r dogfennau gwreiddiol yn unig, neu ddwy o'r dogfennau gwreiddiol yn y cyfuniadau a nodir yn Rhestr A; NEU

b) Un o'r dogfennau gwreiddiol yn unig, neu ddwy o'r dogfennau gwreiddiol yn y cyfuniadau a nodir yn Rhestr B.

Rhestr A – Dogfennau sy'n darparu esgus parhaus

- Pasbort sy'n dangos fod y deilydd, neu unigolyn a enwir ar y pasbort fel plentyn y deilydd, yn ddinesydd Prydeinig neu'n ddinesydd y Deyrnas Gyfunol a'i Threfedigaethau sydd â'r hawl i breswylio yn y Deyrnas Gyfunol.

- Pasbort neu gerdyn adnabod cenedlaethol sy'n dangos fod y deilydd, neu unigolyn a enwir ar y pasbort fel plentyn y deilydd, yn wladolyn o Ardal Economaidd Ewrop neu'r Swistir.

- Trwydded preswylio, tystysgrif cofrestru neu ddogfen sy'n ardystio neu'n nodi preswyliaeth barhaus a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref neu'r Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo i wladolyn o wlad yn Ardal Economaidd Ewrop neu'r Swistir.

- Cerdyn preswylio parhaus a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref neu'r Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo i aelod o deulu gwladolyn o wlad yn Ardal Economaidd Ewrop neu'r Swistir.

- Dogfen Mewnfudo Biometrig a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo i'r deilydd sy'n nodi fod yr unigolyn a enwir ynddi yn cael caniatâd i aros yn y Deyrnas Gyfunol am gyfnod amhenodol, neu nad oes terfyn amser ar eu harhosiad yn y Deyrnas Gyfunol.

- Pasbort neu ddogfen deithio arall a gefnogir i ddangos fod y deilydd yn cael ei eithrio o reolaeth mewnfudo, yn cael aros am gyfnod amhenodol yn y Deyrnas Gyfunol, sydd â'r hawl i breswylio yn y Deyrnas Gyfunol, neu nad oes terfyn amser ar eu harosiad yn y Deyrnas Gyfunol.

- Dogfen Statws Mewnfudo a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref neu'r Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo i'r deilydd gyda chadarnhad sy'n nodi y gall yr unigolyn a enwir ynddi gael caniatâd i aros am gyfnod amhenodol yn y Deyrnas Gyfunol neu nad oes terfyn amhenodol ar eu harosiad yn y Deyrnas Gyfunol, pan gyflwynir y ddogfen ar y cyd gyda dogfen swyddogol sy'n nodi Rhif Yswiriant Cenedlaethol parhaol yr unigolyn a'u henw a gyhoeddir gan asiantaeth y Llywodraeth neu gyn-gyflogwr.

- Tystysgrif geni llawn a gyhoeddwyd yn y Deyrnas Gyfunol sy'n cynnwys enw(au) o leiaf un o rieni'r deilydd, pan gyflwynir y ddogfen ar y cyd gyda dogfen swyddogol sy'n nodi Rhif Yswiriant Cenedlaethol parhaol yr unigolyn a'u henw a gyhoeddir gan asiantaeth y Llywodraeth neu gyn-gyflogwr.

- Tystysgrif mabwysiadu llawn a gyhoeddwyd yn y Deyrnas Gyfunol sy'n cynnwys enw(au) o leiaf un o rieni mabwysiadu'r deilydd, pan gyflwynir y ddogfen ar y cyd gyda dogfen swyddogol sy'n nodi Rhif Yswiriant Cenedlaethol parhaol yr unigolyn a'u henw a gyhoeddir gan asiantaeth y Llywodraeth neu gyn-gyflogwr.

- Tystysgrif geni a gyhoeddwyd yn Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw neu Iwerddon, pan gyflwynir y ddogfen ar y cyd gyda dogfen swyddogol sy'n nodi Rhif Yswiriant Cenedlaethol parhaol yr unigolyn a'u henw a gyhoeddir gan asiantaeth y Llywodraeth neu gyn-gyflogwr.

- Tystysgrif mabwysiadu llawn a gyhoeddwyd yn Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw neu Iwerddon, pan gyflwynir y ddogfen ar y cyd gyda dogfen swyddogol sy'n nodi Rhif Yswiriant Cenedlaethol parhaol yr unigolyn a'u henw a gyhoeddir gan asiantaeth y Llywodraeth neu gyn-gyflogwr.

- Tystysgrif cofrestru neu ddinasyddiad fel dinesydd Prydeinig pan gyflwynir y ddogfen ar y cyd gyda dogfen swyddogol sy'n nodi Rhif Yswiriant Cenedlaethol parhaol yr unigolyn a'u henw a gyhoeddir gan asiantaeth y Llywodraeth neu gyn-gyflogwr.

- Llythyr a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref neu'r Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo i'r deilydd sy'n nodir fod yr unigolyn a enwir yn cael caniatâd i aros am gyfnod amhenodol yn y Deyrnas Gyfunol, pan gyflwynir y ddogfen ar y cyd gyda dogfen swyddogol sy'n nodi Rhif Yswiriant Cenedlaethol parhaol yr unigolyn a'u henw a gyhoeddir gan asiantaeth y Llywodraeth neu gyn-gyflogwr.

Rhestr B – Dogfennau sy'n darparu esgus am hyd at 12 mis

- Pasbort neu ddogfen deithio a gadarnhawyd i ddangos fod y deilydd yn cael caniatâd i aros yn y Deyrnas Gyfunol ac yn cael caniatâd i wneud y math o waith dan sylw, ar yr amod nad oes gofyn cyflwyno trwydded waith.

- Dogfen Mewnfudo Biometrig a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo i'r deilydd sy'n nodi fod yr unigolyn a enwir ynddi yn cael caniatâd i aros yn y Deyrnas Gyfunol ac yn cael caniatâd i wneud y gwaith dan sylw.

- Trwydded waith neu gymeradwyaeth arall i gymryd gwaith a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref neu'r Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo, pan gyflwynir y ddogfen ar y cyd naill ai gyda phasbort neu ddogfen deithio arall a gefnogir i ddangos fod gan y deilydd hawl i aros yn y Deyrnas Gyfunol ac yn cael caniatâd i wneud y gwaith dan sylw, neu lythyr a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref neu'r Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo i'r deilydd neu'r cyflogwr neu ddarpar gyflogwr yn cadarnhau'r un peth.

- Tystysgrif ymgeisio a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref neu'r Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo i aelod o deulu gwladolyn o wlad o fewn Ardal Economaidd Ewrop neu'r Swistir sy'n nodi fod y deilydd yn cael caniatâd i dderbyn gwaith sy'n llai na 6 mis o hyd, pan gyflwynir y ddogfen ar y cyd gyda thystiolaeth dilysu gan Wasanaeth Gwirio Gweithwyr yr Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo.

- Cerdyn preswylio neu ddogfen a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref neu'r Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo i aelod o deulu gwladolyn o wlad yn Ardal Economaidd Ewrop neu'r Swistir.

- Cerdyn Cofrestru Ymgeisio a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref neu'r Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo yn nodi fod gan y deilydd ganiatâd i dderbyn gwaith, pan gyflwynir y ddogfen ar y cyd gyda thystiolaeth dilysu gan Wasanaeth Gwirio Gweithwyr yr Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo.

- Dogfen Statws Mewnfudo a gyhoeddir gan y Swyddfa Gartref neu'r Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo i'r deilydd gyda chadarnhad yn nodi fod yr unigolyn a enwir arni yn gallu aros yn y Deyrnas Gyfunol, ac yn cael caniatâd i wneud y math o waith dan sylw, pan gyflwynir y ddogfen ar y cyd gyda dogfen swyddogol yn nodi Rhif Yswiriant Cenedlaethol parhaol yr unigolyn a'u henw wedi'i gyhoeddi gan Asiantaeth y Llywodraeth neu gyn-gyflogwr.

- Llythyr a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref neu'r Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo i'r deilydd sy'n nodir fod yr unigolyn a enwir yn cael caniatâd i aros yn y Deyrnas Gyfunol, ac yn cael caniatâd i wneud y gwaith dan sylw, pan gyflwynir y ddogfen ar y cyd gyda dogfen swyddogol sy'n nodi Rhif Yswiriant Cenedlaethol parhaol yr unigolyn a'u henw a gyhoeddir gan asiantaeth y Llywodraeth neu gyn- gyflogwr.

Dogfennau nad ydynt yn darparu esgus i chi

- Bil a gyhoeddir gan sefydliad ariannol neu gwmni cyfleustodau; Ni fydd y dogfennau canlynol yn darparu esgus statudol dan adran 15 o Ddeddf 2006

- Llythyr Cydnabod Safonol y Swyddfa Gartref neu Lythyr y Gwasanaeth Mewnfudo (IS96W) sy'n nodi fod ymgeisydd am loches yn gallu

gweithio yn y DG. Os bydd y dogfennau hyn yn cael eu cyflwyno i chi, dylech gynghori'r ymgeisydd i ffonio'r Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo ar 0151 237 6375 am wybodaeth ar sut y gallant wneud cais am Gerdyn Cofrestru Ymgeisio;

- Rhif Yswiriant Cenedlaethol dros dro yn dechrau gyda TN, neu unrhyw rif sy'n diweddu gyda'r llythrennau o E i Z gan gynnwys y ddau;
- Rhif Yswiriant Cenedlaethol parhaol pan fydd yn cael ei gyflwyno'n unigol;
- Trwydded yrru a gyhoeddir gan yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau;
- Pasbort yn disgrifio'r deilydd fel Dinesydd Tiriogaethau Dibynnol Prydain sy'n nodi fod gan y deilydd gysylltiad gyda Gibraltar;
- Tystysgrif geni fyr (wedi'i thalfyrru) a gyhoeddwyd yn y DG sydd heb fanylion o leiaf un o rieni'r deilydd;
- Trwydded a ddarparwyd gan yr Awdurdod Diwydiant Diogelwch;
- Dogfen sydd wedi'i gwirio gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol;
- Cerdyn neu dystysgrif a gyhoeddwyd gan Gyllid y Wlad dan y Cynllun Diwydiant Adeiladu.